Yn dilyn fy e-bost ar 10 Ebrill 2015, rwyf wedi cwblhau'r profion lles y cyhoedd mewn cysylltiad â'r wybodaeth yr ydym yn ei dal sydd yn berthnasol i'r disgrifiad yng nghwestiwn 1 o'ch cais ac sy'n cyfateb i'r disgrifiad yng nghwestiwn 3 yn eich cais. Roedd y cwestiynau hyn fel a ganlyn:

1. **Credaf ei bod yn gyfan gwbl er lles y cyhoedd i gael gwybod faint o arian y Cynulliad a ddefnyddiwyd i sicrhau'r contract pum mlynedd ar gyfer y ras hon, a enillwyd oddi wrth Silverstone**

3. **Gwnaed haeriadau gan Reolwr Gyfarwyddwr Datblygu Blaenau'r Cymoedd cyn yr ymchwiliad Dadgofrestru y mis hwn bod £120 miliwn o fuddsoddiad eisoes wedi'i addo iddynt. A wyddoch chi a yw hyn yn wir, pwy ydyn nhw a pha mor gadarn yw'r ymrwymiad?**

Mae fy atebion i'ch cwestiynau fel a ganlyn:

Cwestiwn 1

Byddai datgelu'r wybodaeth sydd gennym sydd yn berthnasol i'r disgrifiad o'r cais hwn yn niweidiol i fuddiannau masnachol Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd. Mae hyn oherwydd y byddai datgelu'r wybodaeth yn dangos gwybodaeth ariannol sy'n fasnachol sensitif a fyddai'n rhoi mantais fasnachol i ddarpar gystadleuwyr petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu. Mae'r wybodaeth felly'n dod o fewn yr esemptiad a ddarperir gan adran 43(2) (buddiannau masnachol) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae lles i'r cyhoedd, am resymau tryloywder a bod yn agored, mewn datgelu gwybodaeth ynglŷn ag arian sy'n cael ei wario gan Lywodraeth Cymru. Er hynny, ni ddylai cwmnïau sy'n derbyn arian cyhoeddus, ac yn enwedig felly gwmnïau sydd (fel yn yr achos hwn) yn bwriadu creu nifer sylweddol o swyddi yng Nghymru, orfod ofni y byddant yn cael eu rhoi dan anfantais gystadleuol drwy ddatgelu gwybodaeth a fydd yn niweidio eu buddiannau masnachol ar adeg anaddas. Credaf y byddai datgelu'r wybodaeth hon o fudd i ddarpar gystadleuwyr, ac ni fyddai er lles y cyhoedd i hwyluso cystadleuwyr i gael mantais annheg. Mae hwn yn brosiect byw ac felly byddai datgelu gwybodaeth cyn pryd yn arbennig o sensitif. Rwyf felly wedi penderfynu, o bwyso a mesur lles y cyhoedd, y dylid cynnal yr esemptiad a roddir gan adran 43(2).

Cwestiwn 3

Fel y dywedais yn fy e-bost ar 10 Ebrill 2014, nid oes gennym gofnod o wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad o ba un a yw'r £120 miliwn o fuddsoddiad eisoes wedi'i addo. Rydym yn dal y wybodaeth ganlynol sy'n berthnasol i rannau eraill y cais hwn: "Potential private investments have been engaged, including UK pension and insurance funds, Middle Eastern Sovereign Wealth funds and individual private US investors. However, though the project has planning approval, there is a Public Enquiry scheduled for March that will look at the de-registration of the common land that the promoters have acquired from the Duke of Beaufort. Until this is confirmed (the enquiry will report to the Natural Resources minister - Carl Sergeant) the private investors will not formally commit, and therefore the project cannot commence until this is complete". Wrth ymateb i'ch cais, rwyf wedi ymgynghori â Chwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd, ac maent wedi dweud bod unrhyw gefnogaeth yn dibynnu ar nifer o gerrig milltir, gan gynnwys dadgofrestru'r tir comin, negodi'r contractau adeiladu, a chwblhau dogfennaeth fanwl.

Os dymunwch gwyno ynglŷn â'r modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi anfon e-bost neu lythyr ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Dan hon, cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ar ba un ag ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn disgwyl fel arfer i chi fod wedi defnyddio ein holl weithdrefnau cwyno mewnol cyn ymdrin â chais o'r fath. Ceir cyfarwyddyd ychwanegol ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/

Diolch i chi am eich e-bost dyddiedig 11 Ebrill 2015. Rwyf wedi ei anfon ymlaen at gydweithwyr perthnasol er mwyn iddynt nodi ei gynnwys.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips